HSC(6)-02-22 PTN 9

**Eluned Morgan AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Russell George AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

SeneddIechyd@senedd.cymru

15 Gorffennaf 2022

Annwyl Russell

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 11 Gorffennaf yn gofyn am ddiweddariad ynglŷn â'r Bil Optometreg arfaethedig. Rwy'n croesawu eich diddordeb parhaus yn y mater hwn.

Gwnaethpwyd penderfyniad i beidio â symud ymlaen â Bil Optometreg i ddatblygu gwasanaethau optometreg gofal sylfaenol ymhellach. Er ein bod yn symud ymlaen fel y cynlluniwyd i ehangu a gwella gwasanaethau optometreg gofal sylfaenol, gellir cyflawni hyn drwy ddefnyddio'r pwerau gwneud rheoliadau presennol yn Neddf y GIG (Cymru) 2006.

Bydd symud ymlaen yn y modd hwn yn galluogi cyflawni'r amcanion polisi a diwallu nodau Llywodraeth Cymru yn y *Dull Gweithredu ar gyfer Gwasanaethau Optometreg yn y Dyfodol* yng Nghymru, sy'n sail i ymrwymiadau polisi optometreg a'r broses ehangach o ddiwygio gofal sylfaenol yn y strategaeth *Cymru Iachach* a'r Rhaglen Lywodraethu. Blaenoriaeth allweddol yw symud gwasanaethau, os yw'n briodol, o adrannau ysbyty gofal eilaidd i wasanaethau optometreg gofal sylfaenol i leihau'r rhestrau aros yn yr ysbyty a rhyddhau meddygon ymgynghorol a meddygon teulu.

Yn gywir

**Eluned Morgan AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.